| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Medi 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Prif Swyddog Tân (01745) 535253** |
| Pwnc | **Trefniadau Llywodraethu a Chyllid ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y sefylla ddiweddaraf o ran y newidiadau arfaethedig i drefniadau cyllid a llywodraethu ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio trefniadau cyllid a llywodraethu'r ATAau yng Nghymru, mae Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, wedi rhyddhau datganiad sy'n cadarnhau na fydd dau o'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn yn mynd yn eu blaenau, ond y byddai hi'n gwneud datganiad pellach am y mater hwn yn yr hydref.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cael rhagor o wybodaeth pan fydd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gwneud datganiad pellach ar y mater hwn.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn ystyried yr wybodaeth ddiweddar.

**CEFNDIR**

5 Cafodd yr Aelodau wybod yn Rhagfyr 2018 fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar "Ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru" a oedd yn gwahodd ymatebion erbyn 05 Chwefror 2019 i'r cynigion a oedd ynddo am newidiadau i drefniadau llywodraethu a chyllid yr ATAau.

6 Trefnwyd gweithdy ar 15 Ionawr 2019 er mwyn i'r Aelodau allu trafod cynnwys y Papur Gwyn a chyfrannu at ymateb ffurfiol yr Awdurdod a gafodd ei gymeradwyo wedyn a'i gyflwyno erbyn y dyddiad cau.

7 Mewn cyfarfod ar 20 Chwefror 2019, dywedodd Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, wrth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân fod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn wedi ennyn nifer fawr o ymatebion (dros 60) ond unwaith y byddai'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi, byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb.

8 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân gadarnhau i'r Aelodau ar 17 Mehefin 2019 nad oedd y mater wedi symud yn ei flaen oherwydd nad yw'r ymateb hwnnw wedi cael ei gyhoeddi.

**GWYBODAETH**

9 Ar 18 Gorffennaf 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi pum deg naw o'r chwe deg o ymatebion i'w ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, ynghyd â dadansoddiad cryno o'r ymatebion.

10 Roedd y dadansoddiad yn nodi'r canlynol: "…roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r ddadl fras dros newid, er nad oedd yr Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain yn ei gefnogi, yn gyffredinol. Fodd bynnag, a gydag ychydig o eithriadau, roedd llai o gonsensws ynglŷn â'r cynigion manwl." Roedd hefyd yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru'n "…parhau'n ymroddedig i ddiwygio, ac mae'n ystyried ffurf hynny yng ngolau'r ymgynghoriad hwn."

11 Hefyd, fe wnaeth Hannah Blythyn AC ryddhau adroddiad cynnydd ar y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar 18 Gorffennaf 2019, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

12 Roedd yr adroddiad hwn yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i ddiwygio, ond roedd yn cadarnhau na fyddid yn mynd ar ôl y cynigion i a) cael aelodau'r ATA o gabinetau cynghorau a b) mynnu bod yr ATAau yn cytuno ar eu cyllidebau gyda'r awdurdodau lleol, gan eu disgrifio fel y "ddau gynnig yr oedd gan yr ATAau yr amheuon mwyaf amdanynt". Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod hi'n bwriadu ymweld â phob ATA dros yr haf, meddwl ymhellach am gyfeiriad unrhyw ddiwygio, a gwneud datganiad pellach yn yr hydref.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim un, ar hyn o bryd. |
| Cyllideb | Byddai newid trefniadau cyllid a llywodraethu'r Awdurdod yn gallu effeithio ar sefyllfa cyllideb yr Awdurdod yn y dyfodol. Ni chyllidebwyd ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw gyngor cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Mae problemau cyfreithiol posibl yn gysylltiedig â newid, neu ddiddymu, Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995. Efallai y bydd angen cael cyngor cyfreithiol maes o law. |
| Staffio | Dim un, ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dyno/Y Gymraeg | Dim un, ar hyn o bryd. |
| Risgiau | Byddai unrhyw newid i drefniadau cyllid a llywodraethu'r Awdurdod yn gallu effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau priodol i'r gymuned yng Ngogledd Cymru, yn enwedig os oes effaith negyddol ar sefyllfa'r gyllideb. |